Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

| POLISI RHYDDID GWYBODAETH | | | |
|---|---|---|---|
| **Adran** | Swyddfa Ysgrifenyddiaeth | | |
| **Awdur** | Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Dynodedig/ Cwnsler Cyffredinol ac Ysgrifennydd y Brifysgol | | |
| **Awdurdodwyd gan:** | Tîm Gweithredol Is-Ganghellor | | |
| **Gweithredwyd gan:** | Swyddog Rhyddid Gwybodaeth | | |
| **Cyfeirnod y Polisi:** | POSEC2526003 | | |
| **Polisi a Ddisodlwyd:** | POVCEX2021051 | | |
| **Rhif y Fersiwn:** | 1 | **Pwyllgor Cymeradwyo:** | Tîm Gweithredol Is-Ganghellor |
| **Dyddiad cymeradwyo:** | 25.11.25 | **Rhif y cofnod:** | 25.139 |
| **Statws:** | Cymeradwywyd | **Dyddiad Gweithredu:** | Hydref 2025 |
| **Cyfnod cymeradwyo:** | 3 blynedd | **Dyddiad Adolygu:** | Hydref 2028 |

## 1. Polisi

Mae Prifysgol Glyndŵr yn cymryd ei gyfrifoldebau o ran rheoli gofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 o ddifrif. Yn y ddogfen hon ceir y fframwaith polisi y dylid ei ddefnyddio i gyflawni ac archwilio'r dulliau rheoli effeithiol hyn.

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus fel Prifysgol Glyndŵr Wrecsam ('Glyndŵr'), sef:

1. Cadarnhau neu wadu y cedwir yr wybodaeth y gofynnir amdani.
2. Rhoi'r wybodaeth i'r ymgeisydd, os cedwir yr wybodaeth.

Gall unrhyw un wneud cais ysgrifenedig am wybodaeth gofnodedig a gedwir gan neu ar ran Glyndŵr, a rhaid i Glyndŵr gydymffurfio'n ddi-oed ac o fewn 20 diwrnod gwaith. Oni bai bod yr wybodaeth yn berthnasol i un o'r 24 eithriad a nodir yn y Ddeddf, rhaid darparu'r wybodaeth. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y gellir caniatáu 20 diwrnod gwaith ychwanegol ar gyfer ystyried rhoi eithriadau amodol ar waith y mae arnynt angen prawf lles y cyhoedd.

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw awdurdod rheoleiddio annibynnol y Ddeddf, a thrwy'r swyddfa hon y dylid apelio pe na bai ceisiadau'n cael eu datrys yn ôl bodlonrwydd yr ymgeisydd.

## 2. Cwmpas y polisi

Pwrpas y ddogfen hon yw diffinio Polisi Rhyddid Gwybodaeth Glyndŵr:

- Y dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf a sut y mae Glyndŵr yn bwriadu cyflawni'r dyletswyddau hynny
- Y cyfrifoldeb dros sicrhau cydymffurfiaeth
- Cwynion ac apeliadau.

Mae canllawiau i staff ynglŷn â'n gweithdrefnau a'r hyn y dylid ei wneud pan dderbynnir cais

Rhyddid Gwybodaeth i'w cael ar y tudalennau Rhyddid Gwybodaeth ar wefan Glyndŵr:

https://wrexham.ac.uk/cy/llywodraethu-gwybodaeth/rhyddid-gwybodaeth/

### 2.1 Perthynas gyda Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data

Nid yw'r polisi hwn yn cwmpasu Ceisiadau Testun am Fynediad (SAR) (ceisiadau gan unigolyn am ei wybodaeth bersonol ei hun sy'n cael ei dal gan y Brifysgol). Mae'r ceisiadau hyn wedi'u heithrio o'r Ddeddf o dan adran 40(1) a byddant yn cael eu prosesu yn unol â Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU.

## 3. Rolau a Chyfrifoldebau

Is-ganghellor a Bwrdd Llywodraethwyr Glyndŵr sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros Ryddid Gwybodaeth yng Nglyndŵr. Caiff y cyfrifoldeb gweithredol ei ddirprwyo i'r Swyddog Rhyddid Gwybodaeth dynodedig. Rhyddid Gwybodaeth dynodedig yn gweithio ymateb i geisiadau a sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddeddf.

Y Person Cymwys o ran gwneud penderfyniad ynghylch gweithredu eithriad Adran 36 (niweidiol i weithrediad effeithiol materion cyhoeddus) yw'r Is-ganghellor.

## 4. Y berthynas â pholisïau presennol

Mae'r polisi hwn wedi'i lunio yng nghyd-destun dogfennau canlynol Prifysgol Glyndŵr:

- Polisi Cyfathrebu
- Polisi Diogelu Data a Gwaredu Data
- Polisi Rheoli Cofnodion
- Cynllun Iaith Gymraeg

## 5. Cynllun Cyhoeddi'r Brifysgol

Mae gan Brifysgol Glyndŵr Gynllun Cyhoeddi sy'n rhestru'r categorïau gwybodaeth a'r dogfennau y mae'n eu cyhoeddi'n rheolaidd, neu'n bwriadu eu cyhoeddi. Mae'r Cynllun Cyhoeddi i'w weld ar wefan Glyndŵr a gellir cael copïau caled o'r dogfennau gan yr adrannau perthnasol. Caiff y Cynllun ei adolygu'n flynyddol.

## 6. Codau Ymarfer

Bydd Glyndŵr yn cydymffurfio â'r Ddeddf ac yn ymdrin â cheisiadau'n unol â'r Codau Ymarfer a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Cyfansoddiadol dan Adrannau 45 a 46 y Ddeddf.

Pwrpas Cod Adran 45 yw hwyluso'r arfer o ddatgelu trwy bennu arferion gweinyddol da, ynghyd â safonau ar gyfer darparu cyngor i ymgeiswyr. Hefyd, mae'n ymdrin ag ymgynghori gyda thrydydd partïon y mae'r wybodaeth yn berthnasol iddynt neu'r rheini y mae datgelu'r wybodaeth yn debygol o effeithio arnynt, ynghyd â goblygiadau darpariaethau cyfrinachedd mewn contractau, trosglwyddo ceisiadau i awdurdodau cyhoeddus eraill a darparu gweithdrefn gwyno.

Mae Cod Adran 46 yn hyrwyddo dulliau da o reoli cofnodion, yn seiliedig ar yr egwyddor na all deddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth fod yn well nag ansawdd y cofnodion a'r wybodaeth arall y mae'n darparu mynediad atynt. Yn unol â'r Polisi Rheoli Cofnodion, y Pennaeth Cyswllt Cynllunio Strategol sy'n gyfrifol am weithredu dull Glyndŵr o ymdrin â rheoli cofnodion.

## 7. Ymdrin â cheisiadau a'u holrhain

Mae'r Swyddogion Rhyddid Gwybodaeth dynodedig yn gyfrifol am brosesu a monitro ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth.

Dyma'r dulliau o anfon ceisiadau am wybodaeth:

- Trwy e-bost: **foi@glyndwr.ac.uk**
- Trwy'r post:

Swyddog Rhyddid
Gwybodaeth
Swyddfa'r Is-ganghellor
Prifysgol Glyndŵr
Plas Coch
Ffordd Yr
Wyddgrug
Wrecsam
LL11 2AW

Bydd yr holl geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn cael eu cofnodi a'u holrhain gan y Swyddogion Rhyddid Gwybodaeth dynodedig. Bydd hyn o fudd gyda cheisiadau a ailadroddir, ceisiadau tebyg neu geisiadau blinderus. Pan geir sawl cais am wybodaeth yn ymwneud â phwnc arbennig, dylid ystyried ei ychwanegu at y Cynllun Cyhoeddi yn ystod yr adolygiad blynyddol.

Pan fo yna reswm dros gredu mai awdurdod cyhoeddus arall sydd â rhywfaint o'r wybodaeth y gofynnir amdani, neu'r wybodaeth i gyd, bydd Glyndŵr yn cysylltu â'r ymgeisydd ac yn rhoi gwybodaeth ynghylch ble i ailgyfeirio'r cais. Mewn ambell achos, efallai y bydd y cais yn cael ei drosglwyddo'n uniongyrchol i'r awdurdod arall.

Sylwer: mae Undeb y Myfyrwyr yn sefydliad ar wahân ac nid yw'n ddarostyngedig i'r Ddeddf.

## 8. Eithriadau a phrawf lles y cyhoedd

Mae yna 24 eithriad i'r hawl am fynediad at wybodaeth. Caiff rhai eu dynodi fel eithriadau 'absoliwt'; ar gyfer eithriadau absoliwt, nid yw'r ddyletswydd i ddarparu'r wybodaeth yn berthnasol. Eithriadau 'amodol' yw'r mwyafrif, ac maent angen prawf lles y cyhoedd er mwyn penderfynu a yw lles y cyhoedd o safbwynt cadw'r wybodaeth yn ôl yn drech na lles y cyhoedd o ran ei datgelu.

Pan ystyrir bod eithriad yn berthnasol i rywfaint o'r wybodaeth y gofynnir amdani, neu'r holl wybodaeth, bydd yr ymgeisydd yn cael ei hysbysu'n ysgrifenedig. Bydd yr eithriad perthnasol yn cael ei nodi a bydd unrhyw wybodaeth nad yw'n berthnasol i'r eithriad yn cael ei chyflwyno.

Gan fod y Ddeddf yn cynnwys rhagdybiaeth o blaid datgelu, mewn achosion lle y mae'r pwysau'n gyfartal rhwng cadw'r wybodaeth yn ôl a datgelu'r wybodaeth, fe fydd yr wybodaeth yn cael ei datgelu.

Wrth benderfynu a yw datgelu'r wybodaeth yn debygol o niweidio gweithrediad effeithiol materion cyhoeddus (Adran 36 y Ddeddf), bydd y Person Cymwys dynodedig yn gwneud penderfyniad ynghylch gweithredu'r eithriad. Yn achos Glyndŵr, yr Is-ganghellor yw'r person hwn.

Os credir bod angen barn gyfreithiol, bydd y Swyddog Rhyddid Gwybodaeth dynodedig yn ei cheisio.

Gweler hefyd Atodiad B

## 9. Gwybodaeth bersonol

Pan fydd ymgeisydd yn gwneud cais am ei wybodaeth bersonol ei hun, mae'r data'n hollol eithriedig ac ymdrinnir â'r cais fel cais am fynediad at ddata gan y testun dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Pe bai'r cais hwn yn cael ei anfon at y swyddog Rhyddid Gwybodaeth dynodedig yn y lle cyntaf, bydd yn cael ei anfon yn ei flaen at y Swyddog Diogelu Data.

Os yw'r wybodaeth y gofynnir amdani dan y Ddeddf Diogelu Data yn cynnwys gwybodaeth bersonol am drydydd parti, bydd yr wybodaeth yn cael ei rhoi, oni bai:

a) Y byddai datgelu'r wybodaeth yn groes i'r egwyddorion diogelu data. Y materion

hollbwysig yn hyn o beth yw tegwch a chyfreithlondeb, a bydd y rhain yn cael eu

hystyried yn llwyr cyn datgelu'r wybodaeth.

b) Y byddai datgelu'r wybodaeth yn groes i Adran 10 y Ddeddf Diogelu Data (hawl i atal prosesu sy'n debygol o beri niwed neu drallod).

c) Na fyddai gwrthrych y data â'r hawl i gael y data.

ch) Y byddai datgelu'r wybodaeth yn groes i hysbysiad Glyndŵr i'r Comisiynydd Gwybodaeth dan Adran 17 y Ddeddf Diogelu Data.

## 10 Gwybodaeth Trydydd Parti

Yn unol â'r Cod Ymarfer, pan fo ceisiadau'n ymwneud â phobl ac eithrio'r ymgeisydd a Glyndŵr, neu pan allai datgelu'r wybodaeth effeithio ar fuddiannau pobl ac eithrio'r ymgeisydd neu Glyndŵr, fe fydd Glyndŵr, pan fo hynny'n briodol, yn ymgynghori gyda'r trydydd parti'n ddi-oed er mwyn gweld a oes eithriad yn berthnasol, ac er mwyn cynorthwyo gyda'r penderfyniad ynghylch datgelu'r wybodaeth. Fodd bynnag, bydd y penderfyniad yn cael ei wneud yn llwyr gan Glyndŵr.

## 11. Ffioedd

Bydd Glyndŵr yn dilyn Rheoliadau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data (Terfyn a Ffioedd Addas) 2004. Yn unol â hynny, bydd yr holl geisiadau a fydd yn costio llai na £450 i'w prosesu (y 'terfyn addas') yn cael eu casglu'n rhad ac am ddim.

Os bydd y gost amcangyfrifedig yn fwy na £450, nid yw'r ddyletswydd i gydymffurfio â'r cais yn berthnasol. Gellir gwrthod ceisiadau o'r fath. Fodd bynnag, o gofio am y ddyletswydd i roi cyngor a chymorth, pan fydd y gost o gydymffurfio â chais yn fwy na'r terfyn addas, bydd yr ymgeisydd yn cael cymorth, os oes modd, i addasu'r cais neu ailbennu'r hyn y canolbwyntir arno, fel y gellir gostwng y gost dan y terfyn.

Wrth gyfrifo cost cais, dim ond yr amser a gymerir i weld a yw'r wybodaeth gan y brifysgol, dod o hyd iddi a chael gafael arni, y gall Glyndŵr ei ystyried. Ni all ystyried yr amser a gymerir i ystyried eithriadau a cheisio a chael cyngor cyfreithiol, ystyried a yw cais yn flinderus, cael caniatâd i ddarparu'r wybodaeth, cyfrifo ffioedd na gwneud unrhyw olygiadau. Caiff costau eu cyfrifo ar gyfradd o £25 yr awr, sy'n cyfateb i ddeuddydd a hanner o ddiwrnodau gwaith.

Pan fo costau cyfathrebu (fel postio, llungopïo, argraffu, CDs ac ati) yn llai na £35, bydd yr wybodaeth yn cael ei darparu'n rhad ac am ddim. Ar gyfer symiau uwch, gellir codi tâl llawn ar yr ymgeisydd am y costau hyn. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd hysbysiad ffi yn cael ei anfon, a rhaid ei dalu o fewn tri mis. Yn ystod y cyfnod hwn caiff y cloc '20 diwrnod gwaith' ei stopio, a bydd yn cael ei ailgychwyn ar ôl cael y tâl. Os na chaiff y ffi ei thalu, caiff Prifysgol Glyndŵr ei rhyddhau o'i hymrwymiad i ddarparu'r wybodaeth.

Ni fydd Glyndŵr yn codi tâl am wybodaeth a restrir yn ei Gynllun Cyhoeddi, ac eithrio pan nodir hynny'n benodol yn y Cynllun.

## 12. Cwynion

Mae'r Cod Ymarfer a gyhoeddir dan Adran 45 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i roi gweithdrefn apelio ar waith er mwyn sicrhau bod modd i ymgeiswyr ofyn am adolygiad mewnol pan na fyddant yn fodlon gyda'r modd yr ymdriniwyd â'u cais gan yr awdurdod cyhoeddus. Rhaid derbyn ceisiadau o'r fath am adolygiad mewnol yn ysgrifenedig o fewn 40 diwrnod i dderbyn yr ymateb cyntaf gan y Brifysgol.

Bydd unrhyw ymateb ysgrifenedig gan yr ymgeisydd sy'n mynegi anfodlonrwydd ynghylch ymateb Glyndŵr i gais yn cael ei drin fel cwyn, pa un a yw'r ymgeisydd wedi nodi'n unswydd ei ddymuniad i'r penderfyniad gael ei adolygu, ai peidio.

*Mathau o gwynion:*

- Nid ymdriniwyd â'ch cais o fewn y terfyn amser '20 diwrnod gwaith'
- Ni chawsoch yr holl wybodaeth y gofynnwyd amdani
- Rydych o'r farn fod eithriadau wedi'u rhoi ar waith ar gam
- Rydych o'r farn fod ffi wedi'i chodi ar gam

*Pwy sy'n gyfrifol am ymdrin â chwynion?*

Yr Is-ganghellor sy'n gyfrifol am ymdrin â chwynion. Bydd Glyndŵr yn ymdrechu i gyflwyno ymateb o fewn 20 diwrnod gwaith. Mae'r Is-ganghellor wedi dirprwyo'i phwerau i swyddogion awdurdodedig a nodir yn Atodiad A, a elwir gyda'i gilydd yn Adolygwyr Mewnol.

*Terfyn amser ar gyfer cyflwyno cwyn*

Yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, rhaid cyflwyno apêl o fewn deufis i ymateb terfynol Glyndŵr i'r cais. Ni fydd cwynion a dderbynnir fwy na deufis ar ôl y penderfyniad cychwynnol yn cael eu hystyried.

Ar ôl derbyn y gwyn, bydd cydnabyddiaeth a syniad ynghylch pryd y gall yr ymgeisydd ddisgwyl ateb yn cael eu hanfon.

*Adolygiad*

Bydd adolygiad yn cael ei gynnal gan Adolygydd Mewnol awdurdodedig nad oedd yn rhan o'r penderfyniad gwreiddiol ynghylch a ddylid rhyddhau'r wybodaeth, ai peidio. Nodir yr Adolygwyr Mewnol yn Atodiad A.

*Y Broses Adolygu*

Rhaid i'r adolygiad gynnig ffordd deg a diduedd o adolygu penderfyniadau a wnaed yn yr ystyriaethau gwreiddiol ynghylch rhyddhau'r wybodaeth, neu ynghylch unrhyw un o'r cwynion uchod.

Bydd yr holl adolygiadau mewnol yn ystyried yr wybodaeth a ryddhawyd yn erbyn yr wybodaeth y gofynnwyd amdani, gan adolygu'n llwyr y papurau a oedd yn gysylltiedig â'r cais gwreiddiol.

Gall yr Adolygydd Mewnol drafod y penderfyniad gwreiddiol gydag aelodau o staff a oedd yn gysylltiedig â'r cais, er mwyn canfod sut y gwnaed y penderfyniad. Bydd hefyd yn darllen dogfennau a gasglwyd neu a gadwyd i ategu'r penderfyniad hwnnw.

Bydd yr Adolygydd Mewnol yn trafod ei gasgliadau gyda'r swyddog Diogelu Data a'r swyddog Rhyddid Gwybodaeth dynodedig er mwyn sicrhau bod unrhyw brosesau mewnol y gall fod angen eu haddasu yn cael eu hadolygu'n llwyr.

Ar ôl cwblhau'r adolygiad, bydd yr ymgeisydd yn cael ei hysbysu'n llwyr ynglŷn â'r canlyniad.

**Amserlenni**

Rhaid cwblhau adolygiadau mewnol o fewn amserlen resymol. Bydd Glyndŵr yn anelu at ymdrin ag ystyriaethau syml o fewn 20 diwrnod gwaith o dderbyn y gwyn, gan anelu at ymdrin ag adolygiadau mwy cymhleth, fel ailystyried prawf lles y cyhoedd, o fewn 40 diwrnod gwaith o dderbyn y gwyn.

Os daw'n amlwg yn ystod unrhyw gam yn yr adolygiad mewnol ei bod yn annhebygol y gellir cadw at yr amserlen a bennwyd, bydd Glyndŵr yn sicrhau bod yr ymgeisydd yn cael ei hysbysu a bydd ail amserlen yn cael ei phennu. Dylai'r adolygydd wneud pob ymdrech i gadw at hon.

*Canlyniad Adolygiad Mewnol*

Naill ai

Bydd y penderfyniad gwreiddiol yn cael ei gadarnhau

**neu**

Bydd y gwyn yn cael ei chadarnhau

Pan gaiff y gwyn ei chadarnhau, dylai'r adolygydd hysbysu'r ymgeisydd a rhoi gwybod iddo pryd y gall ddisgwyl unrhyw wybodaeth (bellach) y gofynnwyd amdani.

Pan gaiff y penderfyniad gwreiddiol ei gadarnhau, bydd yr adolygydd yn hysbysu'r ymgeisydd.

Yn y llythyr canlyniad dylai'r adolygydd nodi'r camau nesaf, ni waeth be fo canlyniad yr adolygiad mewnol.

Os ydych yn dal i fod yn anfodlon, mae gennych hawl i ofyn am adolygiad gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sydd â'r pŵer i gadarnhau neu wrthdroi'r penderfyniad. Bydd Prifysgol Glyndŵr yn glynu wrth benderfyniad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, oni bai y cred fod ganddi sail i apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Hawliau Gwybodaeth).

*Cysylltwch â:*

http://wales@ico.org neu ysgrifennwch atynt

Swyddfa'r Comisiynydd
Gwybodaeth
*Tŷ Wycliffe,*
*Lôn Water,*
*Wilmslow,*
*Sir Gaer,*
*SK9 5AF*

Rhif ffôn: 029 2067 8400
Rhif ffacs: 029 2067 8399

**ATODIAD A**

| **ADOLYGWYR MEWNOL AWDURDODEDIG** | |
|---|---|
| | |
| Is-ganghellor | Yr Athro Joe Yates |
| Dirprwy i'r Is-ganghellor | Yr Athro Paul Davies |
| Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid | Emma Forfar |
| Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau | Lynda Powell |
| Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau | Peter Gibbs |
| Cwnsler Cyffredinol ac Ysgrifennydd y Brifysgol | Joy Morton |

**ATODIAD B**

Cymalau Eithrio

Mae'r tabl isod yn ganllaw cyfeirio syml i'r cymalu eithrio sy'n cael eu hamlinellu yn Rhan II y Ddeddf Rhyddid Gwyboaeth. Ceir canllawiau manwl ynghylch cymhwyso'r eithriadau hyn ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. * mae eithriadau sydd

wedi'u nodi gyda seren yn ddiamod; mae angen cynnal prawf budd y cyhoedd ar gyfer yr holl eithriadau eraill.

Rhif yr Adran a disgrifiad

21 * Gwybodaeth sy'n rhesymol o hygyrch i'r ceisydd drwy ddulliau eraill

22 Gwybodaeth y bwriedir ei chyhoeddi yn y dyfodol, gan gynnwys gwybodaeth a gafwyd yn ystod rhaglen ymchwil.

23 * Gwybodaeth sy'n cael ei chyflenwi gan gyrff sy'n delio â materion diogelwch, neu sy'n gysylltiedig â chyrff o'r fath

24 Gwybodaeth at ddiben gwarchod diogelwch gwladol

27 Gwybodaeth a allai niweidio cysylltiadau rhyngwladol

28 Gwybodaeth a allai niweidio cysylltiadau rhwng gweinyddiaethau o fewn y Deyrnas Unedig

29 Gwybodaeth a allai niweidio buddiannau economaidd neu ariannol y Deyrnas Unedig

30 Gwybodaeth a gedwir at ddibenion ymchwiliadau ac achosion a gynhelir gan awdurdodau cyhoeddus

31 Gwybodaeth a allai fod o anfantais o ran gorfodi'r gyfraith

32 * Gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn dogfennau a chofnodion llys

33 Gwybodaeth a allai fod o anfantais wrth arfer swyddogaethau archwilio

34 * Gwybodaeth a allai amharu ar freintiau naill Dŷ'r Senedd neu'r llall

35 Gwybodaeth sy'n gysylltiedig â llunio neu ddatblygu polisi Llywodraeth

36 Gwybodaeth a allai fod o anfantais i gyfrifoldeb ar y cyd Gweinidogion, rhwystro darparu cyngor gonest am ddim, neu fod o anfantais i gynnal materion cyhoeddus yn effeithiol

37 * Gwybodaeth sy'n gysylltiedig â chyfathrebiadau gydag Ei Fawrhydi ac aelodau eraill o'r Teulu Brenhinol neu roi anrhydeddau (eithriad diamod mewn perthynas yn unig â chyfathrebiadau gyda'r

Brenin, etifedd yr Orsedd ac ail yn y llinach at yr Orsedd)

38 Gwybodaeth a allai fod yn debygol o beryglu diogelwch neu iechyd corfforol neu feddyliol unigolyn

39 Gwybodaeth sy'n berthnasol i wybodaeth amgylcheddol

40 * Data personol (eithriad diamod mewn perthynas yn unig â gwybodaeth sy'n ddata personol o eiddo'r ceisydd)

41 * Gwybodaeth a geir gan berson arall neu awdurdod cyhoeddus ac a fyddai'n golygu torri cyfrinachedd

42 Gwybodaeth a gwmpasir gan fraint broffesiynol gyfreithiol

43 Gwybodaeth sy'n gyfrinach fasnach neu a allai fod o anfantais i fuddiannau masnachol

44 * Gwybodaeth a waherddir rhag datgelu drwy unrhyw ddeddfiad, rhwymedigaeth UE neu a fyddai'n gyfystyr â dirmyg llys